# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bala a Phenllyn




DRAFT

# Crynodeb Drafft (Ionawr 2022)

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **7** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Bala a Phenllyn.

DRAFT

## 2. Beth sy'n dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bala Penllyn yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 7 |
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 4 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau | 3 |
| Adnoddau iechyd a gofal | 3 |
| Aer glan / dim llygredd | 2 |
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 2 |
| Darpariaeth i bobl hŷn | 2 |
| Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, theatr | 2 |
| Lle da i fagu teulu | 2 |
| Darpariaeth addysg ac ysgolion da | 2 |
| Cynnyrch a busnesau lleol | 1 |
| Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr | 1 |
| Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth | 1 |
| Gwirfoddolwyr | 1 |
| Band eang da | 1 |
| Canolfan ailgylchu da | 1 |
| Dim siopau gwag | 1 |

DRAFT

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma’r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bala Penllyn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 5 |
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 5 |
| Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal | 4 |
| Y stoc dai ddim yn addas i'r galw a phroblemau Cynllunio | 3 |
| Pellter daearyddol o gyfleusterau a gwasanaethau | 3 |
| Yr iaith / diwylliant yn colli tir | 2 |
| Problemau yn ymwneud a pharcio | 2 |
| Darpariaeth iechyd, llesiant a gofal | 2 |
| Twristiaid ddim yn parchu’r ardal | 1 |
| Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol | 1 |
| Band eang / cysylltiad we wael | 1 |
| Dim angerdd / arweiniad yn lleol er mwyn newid | 1 |
| Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 1 |

DRAFT

## 4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Bala Penllyn am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 4 |
| Twristiaeth gynaliadwy a datblygu adnoddau ymwelwyr | 4 |
| Cefnogaeth i Neuadd / Canolfan gymunedol er budd trigolion lleol | 4 |
| Cynnal a datblygu llwybrau beicio a cherdded a llecynnau gwyrdd | 4 |
| Gwarchod y cae chwarae fel adnodd cymunedol | 2 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol | 2 |
| Mwy anogaeth i'r iaith / diwylliant er mwyn ffynnu a helpu dysgwyr | 2 |
| Busnesau lleol yn parhau i ffynnu | 2 |
| Creu gwaith a swyddi gwerth uchel | 2 |
| Gwarchod y diwydiant amaeth yn yr ardal | 1 |
| Cadw safon darpariaeth iechyd | 1 |
| Gwell rheolaeth parcio ar gyfer trigolion | 1 |
| Creu is-adeiladaeth band eang | 1 |
| Ardal fwy gwerdd a chynlluniau atal argyfwng hinsawdd | 1 |
| Ysbyty cymunedol ar agor 24 awr | 1 |
| Datganoli gwasanaethau i ardaloedd mwy gwledig | 1 |
| Angen buddsoddiad yn ein pobl ifanc | 1 |
| Mwy o gyfleoedd i dyfu bwyd yn lleol | 1 |
| Dim rhwystrau gan Gyngor Gwynedd wrth drosglwyddo asedau cymunedol | 1 |

DRAFT

## 5. Cwestiynau ychwanegol

**5.1** Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Nalgylch Bala Penllyn

- Cyngor Gwynedd
- Cwmni Pum Plwy Penllyn
- Cymdeithas gymunedol y Bala a Penllyn
- Partneriaeth Penllyn
- Grwpiau cymunedol lleol
- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Parc Cenedlaethol
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Clwb Rygbi
- Grŵp Busnes
- Canolfan deulu
- Aelodau Senedd
- Rheilffordd Llyn y Bala
- Bwrdd Iechyd
- Cymdeithasau Tai

**5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?**

- Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi ysgrifennu cynllun dros y misoedd diwethaf i adnabod y brif thema sy'n effeithio ar yr ardal a be ydi rôl gwahanol gyrff i ymateb. Yn Gwerthfawrogi ein help i ymgorffori'r rheiny i'r cynlluniau ardal er mwyn cael cefnogaeth i geisio ymateb i'r hyn sydd wedi codi, a symud y dymuniadau yn eu blaenau.

**5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Nalgylch Bala Penllyn:**

- Mae'r Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi paratoi cynllun ardal ac yn awyddus i gael trafodaeth gyda gweddill Cynghorau'r ardal dan sylw trwy gyfrwng Partneriaeth Penllyn er mwyn ymgorffori'r cynllun yma yn y cynllun Bala Penllyn ehangach.
- Colli'r adnodd 'Y Cyfnod' wedi bod yn ergyd i'r ardal.

DRAFT